Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Senedd ac ASau Cymreig

5 Ionawr 2024

Annwyl gydweithwyr

Hoffwn rannu gyda chi eto nifer o astudiaethau achos gan sefydliadau'r GIG ar yr hyn y maent yn falch ohono. Mae'r rhain yn cael eu coladu fel rhan o'n diweddariadau misol ar gyfer Bwrdd Arwain GIG Cymru.

Gweler isod uchafbwyntiau pob sefydliad:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Uned endosgopi bwrpasol yn agor yn Ysbyty Brenhinol Gwent
Mae uned endosgopi bwrpasol newydd sbon wedi agor ei drysau i gleifion yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Bydd yr uned newydd yn darparu ystod ehangach o wasanaethau endosgopi i gleifion yn ardal Gwent gan ddefnyddio offer a chyfleusterau o'r radd flaenaf.

Dywedodd Sarah Wilson, Rheolwr Cyfarwyddiaeth Gastroenteroleg ac Endosgopi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: "Ein nod oedd gwella taith y claf, ansawdd y claf a diogelwch y claf, ac yn y pen draw gwella profiad cyffredinol y claf o endosgopi. Rwyf mor falch o allu cynnig y gwasanaeth y maent yn ei haeddu i'n cleifion."

Bydd yr uned ar ei newydd wedd bellach yn cynnig gwasanaethau endosgopi saith niwrnod yr wythnos, a bydd yn gwella ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf yn sylweddol trwy ddyblu ei chapasiti. Mae manteision niferus y gwasanaeth hwn yn cynnwys lleihau amseroedd aros a hyd arhosiad cleifion mewnol.

Gwasanaeth arloesol yn arbed arosiadau gwely
Mae'r uned triniaethau dydd gastroenteroleg (GACU) yn derbyn tua 4,200 o ymweliadau y flwyddyn ar gyfer triniaeth achosion dydd ac ymyrraeth. Mae'n rhan o fenter triniaethau dydd ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n seiliedig ar y dull o alluogi cleifion i gerdded i mewn a mynd adref ar yr un diwrnod ac aros dim ond os oes gwir angen iddynt aros.

Gellir derbyn cleifion i GACU ar gyfer gofal hanfodol, sy'n helpu i osgoi derbyniadau brys. Cleifion ag anhwylderau ym maes gastroenteroleg a welir yma yn bennaf ond caiff cleifion

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eu hatgyfeirio at GACU o feysydd eraill hefyd, megis y rhai â chlefyd y coluddyn, eraill i adolygu canlyniadau gwaed, neu am adolygiadau brys na allant aros am adolygiad clinig. Mae'r uned hefyd yn cynorthwyo gyda gwasanaethau ar gyfer cleifion ag anhwylderau niwroleg ac anadlol a'r rhai sydd angen gofal lliniarol lle y gall helpu.

Dywedodd Gaz Lloyd-Ford, Nyrs Arweiniol Gastroenteroleg a Meddygaeth Gyffredinol: "Mae meddygaeth triniaeth ddydd yn ei chyfanrwydd yn beth sy'n esblygu. Mae modelau gwahanol hefyd yn cael eu defnyddio mewn mannau eraill yn y bwrdd iechyd. Y pwynt yw, mae'r cleifion yn gallu cerdded, felly gallant ddod i mewn a gallant fynd adref. Dim ond os ydyn ni wir angen iddyn nhw aros y maen nhw'n aros."

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Sefydliad Nyrsys y Frenhines

Mae tair cydweithwraig o dîm nyrsio cymunedol cymuned iechyd integredig canolog Betsi Cadwaladr wedi ymuno â grŵp elitaidd sy'n gweithredu ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr ac sy'n galw ei hunan yn Nyrsys y Frenhines. Cafodd y nyrsys cymunedol yr anrhydedd prin yn ddiweddar, ar ôl gwneud cais i Sefydliad Nyrsys y Frenhines (QNI) a chael eu hasesu'n dreiddgar. Mae cael tair cydweithwraig o'r un tîm ardal, yn yr un flwyddyn, yn ymuno â charfan o ddim ond 2,500 o Nyrsys y Frenhines yn gamp anhygoel.

Dywedodd Cyfarwyddwraig Weithredol Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Angela Wood: "Cael bod yn Nyrs y Frenhines yw'r gydnabyddiaeth fwyaf posibl o ymrwymiad, ymroddiad ac effaith nyrs gymunedol ar y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu a'r cydweithwyr y mae'n gweithio gyda nhw.

"Rwy'n gobeithio y bydd y gydnabyddiaeth a ddaw yn sgil yr anrhydedd hwn, a'r gwaith y maent wedi'i wneud i hybu delwedd a phroffil nyrsio cymunedol, yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd i ymuno â ni."

Mae teitl Nyrs y Frenhines yn caniatáu i ddeiliaid gael mynediad i rwydweithiau cymorth proffesiynol, rhaglenni datblygiadol a bwrsarïau – ac mae'n gydnabyddiaeth ffurfiol o ymrwymiad y deiliad i wella gofal cleifion.

Ail ystafell mân driniaethau ar gyfer llawdriniaethau dwylo yn agor yn Ysbyty Llandudno

Mae ail ystafell mân driniaethau ar gyfer llawdriniaethau dwylo bellach wedi agor yn Ysbyty Llandudno i helpu i leihau amseroedd aros a lleihau'r ôl troed carbon o fewn gweithdrefnau llawfeddygol.

Mae hyn yn dilyn agoriad llwyddiannus yr ystafell mân driniaethau gyntaf yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn gynharach eleni.

Dywedodd y Llawfeddyg Orthopedig Ymgynghorol, Mr Edwin Jesudason, sy'n cynnal y llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno: "Rydym wrth ein bodd i gael yr ystafell mân driniaethau hon ar waith. Rydym yn gweld bod ein cleifion yn llawer mwy hamddenol yn dod i mewn am eu llawdriniaeth gan nad ydynt yn aros ar y ward ac nid oes angen iddynt newid i wisg ysbyty fel y byddent mewn theatrau."

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Nyrs yn ennill gwobr genedlaethol glodfawr

Mae nyrs ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n ymroddedig i gynorthwyo pobl ifanc â diabetes wedi cael gwobr genedlaethol glodfawr am ei gwaith anhygoel.

Mae Rachael Humphreys yn Nyrs Diabetes Pediatrig Arbenigol yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru ac mae wedi ennill Gwobr Cyfraniad Eithriadol GIG Cymru am Wasanaethau Diabetes yng Ngwobrau Diabetes Ansawdd mewn Gofal (QiC).

Graddiodd Rachael fel nyrs bediatrig yn 2010 ac mae wedi gweithio'n ddiflino i wella bywydau plant ac oedolion ifanc sy'n byw â diabetes yng Nghymru. Rachel yw'r arweinydd ar gyfer Diabetes Math 1 ac Anhwylderau Bwyta (T1DE) o fewn ei gwasanaeth, ac mae'n gweithio ar y cyd â'r tîm Anhwylderau Bwyta i gynorthwyo cleifion sydd â T1DE.

Wrth siarad am ei gwobr, dywedodd Rachael: "Rwyf bob amser wedi ymdrechu i gynorthwyo'r cleifion yn ein gwasanaeth hyd eithaf fy ngallu ac yn mwynhau trefnu ac arwain ar brosiectau a gwella gwasanaethau. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn gweithio'n galed iawn i godi ymwybyddiaeth o T1DE a hyrwyddo cydweithio a gwaith tîm amlddisgyblaethol i'r rhai sydd â T1DE. Ni fyddwn wedi gallu creu'r gwaith na gyrru'r gwasanaeth yn ei flaen heb yr oedolion ifanc sy'n fodlon rhannu eu profiadau gyda mi."

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Enillwyr gwobrau
Enillodd Cwm Taf Morgannwg wobr yng Ngwobrau GIG Cymru yn y categori Gweithio'n Ddi-dor ar draws y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector er mwyn Addasu Cardbord at Ddibenion Gwahanol: Partneriaeth beilot rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac ELITE Paper Solutions.

Rhwng Tachwedd 2022 ac Awst 2023, bu Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ynghyd ag ELITE Paper Solutions, menter gymdeithasol ym Merthyr Tudful, yn gweithio mewn partneriaeth i gynnal rhaglen beilot, gyda'r gobaith y bydd yn cael ei rhoi ar waith ar draws y bwrdd iechyd cyfan. Mae ELITE Paper Solutions wedi'i leoli ym Merthyr Tudful, De Cymru, a menter gymdeithasol leol ydyw sy'n cynorthwyo 70 o staff a gwirfoddolwyr difreintiedig a/neu anabl i gael hyfforddiant a chyflogaeth leol.

Derbyniodd Craig Edwards, Uwch-reolwr yr Amgylchedd, Gwastraff a'r Fflyd yn y bwrdd iechyd, y wobr ar ran y tîm peilot, a dywedodd: "I mi, nid gwastraff yn unig yw ffocws yr economi gylchol, ond mae'n ymwneud yn fwy â galluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i weithio mewn partneriaeth â mentrau cymdeithasol fel ELITE Paper Solutions i'w helpu i dyfu a gwireddu gwir botensial yr unigolion niferus y mae ELITE yn eu cefnogi. Mae'r wobr yn destament iddyn nhw."

Roedd yr ail wobr i Christian Harris a Kirsten Jenkins, a enillodd 'Gwobr Gweithiwr Cymorth Nyrsio' yng Ngwobrau'r Coleg Nyrsio Brenhinol 2023.

Mae Christian a Kirsten yn gweithio fel gweithwyr cymorth yn uned cleifion mewnol gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed Tŷ Llidiard yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Maent yn goruchwylio hyfforddiant mewn atal a rheoli trais ac ymddygiad ymosodol ar gyfer holl staff yr uned ac yn cyflwyno'r hyfforddiant i fwy na 100 o gydweithwyr, ochr yn ochr â'u dyletswyddau dyddiol.

Dywedodd y pennaeth nyrsio, Lloyd Griffiths, a enwebodd Christian a Kirsten: "Rydym wrth ein bodd bod Christian a Kirsten wedi cael eu cydnabod gyda'r wobr hon. Mae Tŷ Llidiard wedi bod ar daith wella dros y blynyddoedd diwethaf ac mae eu gwaith ar leihau arferion cyfyngol a'u hymroddiad i gynnal safonau hyfforddi a chydymffurfio wedi bod yn rhan annatod o hyn. Maen nhw'n fodelau rôl angerddol, ymroddedig a rhagorol sy'n chwarae rhan weithredol mewn cymorth staff ac ôl-drafodaethau ar ôl digwyddiadau."

Dathlu rhagoriaeth – lansio gwobrau Seren CTM
Mae Cwm Taf Morgannwg wedi lansio cynllun cydnabod cymheiriaid newydd sbon, Seren CTM. Y bwriad yw cydnabod y gweithredoedd rhyfeddol o dosturi, ymroddiad a chreadigedd sy'n gwneud y bwrdd iechyd yn lle gwell i weithio ac yn lle gwell i gael gofal.

Gall unrhyw aelod o staff sydd am gymeradwyo rhywun y maent yn gweithio gyda nhw ymweld â thudalen flaen ein mewnrwyd ac anfon tystysgrif Gwobr Seren CTM bersonol at y cydweithiwr hwnnw.

Yn ystod chwe wythnos gyntaf y cynllun, cawsant dros 650 o enwebiadau gan gydweithwyr ar draws pob rôl yn y bwrdd iechyd, gan ddangos awydd gwirioneddol i gydnabod cydweithwyr.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Cyfarfod blynyddol y bwrdd iechyd yn myfyrio ar flwyddyn eithriadol arall
Cymerodd cyfarfod cyffredinol blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda dro gwahanol eleni.

Yn ogystal ag adolygu adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys ei gyfrifon ariannol, roedd y digwyddiad yn cynnwys sesiwn holi ac ateb fanwl gyda grŵp o gynrychiolwyr gwych o Academi Prentisiaethau Hywel Dda.

Bedair blynedd yn ôl, cyflwynodd y bwrdd iechyd gyfleoedd prentisiaeth i fynd i'r afael â heriau recriwtio ac i fuddsoddi mewn doniau o'n cymunedau lleol sy'n dangos caredigrwydd a thosturi yn unol â gwerthoedd y bwrdd iechyd. Rhannodd y tîm o brentisiaid yr hyn y maent wedi'i fwynhau am eu hamser gyda'r bwrdd iechyd, a sut maent yn edrych ymlaen at ddatblygu eu gyrfa yn y sefydliad.

Yn ogystal â'r cyflwyniad gan y prentisiaid, roedd y cyfarfod cyffredinol blynyddol a'r adroddiad blynyddol hefyd yn cynnwys cyflwyniadau a oedd yn nodi'r hyn a gyflawnwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Roedd y prif themâu'n cynnwys sut mae'r bwrdd iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn ei amcanion strategol, ei ymateb parhaus i COVID-19, a'i berfformiad yn erbyn nifer o fesurau, gan gynnwys gofal a gynlluniwyd, gofal brys ac argyfwng, canser, iechyd meddwl, gwasanaethau niwroddatblygiadol, rheoli heintiau, a'r gweithlu.

Dywedodd Maria Battle, sydd newydd ymddeol fel cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn rhoi cyfle i ni fyfyrio ar flwyddyn ryfeddol arall, ond hefyd i edrych ymlaen at 2023/24. Er bod pethau'n dal i fod yn heriol iawn i'r GIG, mae gennym weledigaeth glir i'n helpu i wella ar ôl effaith y pandemig, mynd i'r afael â'n her ariannol hirsefydlog, ac adeiladu system iechyd wydn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol."

Gwobr i Hywel Dda yng Ngwobrau Iechyd Meddwl a Lles Cymru 2023
Cipiodd Tîm Ysmygu a Lles Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y wobr am y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Gorau yng Ngwobrau Iechyd Meddwl a Lles Cymru 2023.

Cydnabuwyd y tîm am y gwasanaeth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y mae'n ei ddarparu i'r rhai â phrofiadau iechyd meddwl sydd am roi'r gorau i ysmygu neu ysmygu llai.

Dywedodd Dr Ardiana Gjini, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Rwy'n falch iawn bod ein Tîm Ysmygu a Lles wedi'i gydnabod yng Ngwobrau Iechyd Meddwl a Lles Cymru eleni – mae hwn yn fater iechyd cyhoeddus pwysig a hoffwn eu llongyfarch am y cyflawniad gwych hwn."

Dywedodd Lucy Duncanson, Uwch-ymarferydd Ysmygu a Lles o fewn tîm Gwella Iechyd y Boblogaeth, Iechyd y Cyhoedd, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: “Rydym yn falch bod ein gwaith i helpu cleientiaid iechyd meddwl i wella eu hiechyd ac ysmygu llai wedi cael ei gydnabod. Rydym wedi gwella ein gwasanaeth safonol yn llwyddiannus i estyn allan at y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl i’w cefnogi i leihau eu dibyniaeth ar dybaco. Rydym hefyd wedi gweithio i sicrhau ein bod yn hyblyg gyda’r cymorth a ddarparwn, gan ei deilwra i ddiwallu anghenion cleientiaid unigol yn hytrach na disgwyl i gleientiaid gyd-fynd â model gwasanaeth traddodiadol”.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Prosiectau cyfalaf – ‘gerddi llesiant’
Roedd yr ardd allanol ger yr ystafelloedd gofal lliniarol yn **Llanidloes** mewn cyflwr gwael. Nid oedd yn darparu gofod addas ar gyfer cleifion ac anwyliaid ac nid oedd ychwaith yn cynnig digon o breifatrwydd.

Diolch i arian Cymdeithas y Cyfeillion a’r Loteri, mae’r prosiect wedi creu man awyr agored myfyriol a fydd yn gwella ansawdd bywyd y rhai sydd angen yr ystafelloedd, ynghyd ag aelodau eu teuluoedd. Mae bellach yn darparu lle i gleifion a’u hanwyliaid fyfyrio ar eiliadau a rennir ac yn rhoi cysur, preifatrwydd ac urddas i’n cleifion i ffwrdd o amgylchedd clinigol.

Roedd Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol **y Trallwng**, trwy gymorth cronfeydd elusennol, am ddarparu gardd synhwyraidd ymwybyddiaeth ofalgar ar ddarn bach o dir a oedd gerllaw swyddfa’r tîm. Mae’r gwaith wedi cynnwys clirio’r safle o chwyn a llystyfiant, gosod llwybr newydd, patio a gasibo, ac adeiladu gwelyau uchel. Mae’r ardd bellach yn darparu man awyr agored therapiwtig diogel a hygyrch i staff a defnyddwyr y gwasanaeth fwynhau’r awyr agored.

Datblygwyd ystafell gofal lliniarol ar **Ward Maldwyn** yn 2018 trwy gyllid Cymdeithas y Cyfeillion. Fel dilyniant i’r prosiect hwn, gofynnwyd am ganopi i orchuddio’r cwrt yn union y tu allan i’r ystafelloedd hyn er mwyn darparu man allanol deniadol i gleifion a pherthnasau ei ddefnyddio.

Gwobrau Rhagoriaeth Staff yn mynd yn “rhithwir”
Mae dull rhithwir newydd at Wobrau Rhagoriaeth Staff Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn rhoi ymgysylltiad staff wrth wraidd y rhaglen gydnabyddiaeth bwysig hon. Daeth 182 o enwebiadau anhygoel i law, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddewis y rhai haeddiannol yn y rownd derfynol.

Mae dau ddigwyddiad gwobrwyo wedi’u cynnal hyd yma, gyda llwyddiant ar gyfer Rhaglen Ymgysylltu a Lles Staff y bwrdd iechyd, ymarferydd nyrsio brys dan hyfforddiant y bu ei feddwl chwim yn fodd o helpu i achub bywyd dyn a yrrodd ei hun i uned mân anafiadau gaeedig ar ôl syrthio ar lif gron, cyfieithydd Cymraeg, a chynorthwyydd cynnal a chadw y mae ei daith gyrfa wedi ei arwain at fod yn rheolwr prosiectau cyfalaf.

Drwy gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr, bu’r cadeirydd a’r prif weithredwr yn cynnal cyfres o wyth seremoni wobrwyo rithwir, un ar gyfer pob categori Rhagoriaeth Staff.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Rolau newydd yn rhoi hwb i ddyheadau Bae Abertawe o ran cynaliadwyedd
Mae Bae Abertawe wedi cyflawni cynnig cyntaf arall mewn cynaliadwyedd yn dilyn creu tair swydd newydd o fewn y bwrdd iechyd.

Er mwyn meithrin ymrwymiad y bwrdd iechyd i ddod mor gynaliadwy â phosibl ar draws ei wasanaethau a'i safleoedd, mae tri arweinydd clinigol cynaliadwyedd wedi'u penodi.

Ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau clinigol o ddydd i ddydd, mae ganddynt y dasg hefyd o ymgorffori cynaliadwyedd ar draws y bwrdd iechyd i gyflawni amcanion newid hinsawdd a gweithio'n agos gyda chydweithwyr a grwpiau staff.

Mae gan bob arweinydd clinigol amser wedi'i neilltuo bob wythnos i ganolbwyntio ar eu rôl newydd, sy'n golygu eu bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i annog, hyrwyddo a datblygu syniadau i helpu i ddarparu gofal iechyd mwy cynaliadwy a, lle bo modd, arbed arian i'r bwrdd iechyd.

Mae Bae Abertawe eisoes wedi cyflawni nifer o brosiectau proffil uchel. Creodd y fferm solar gyntaf yn y Deyrnas Unedig sy'n eiddo i ysbyty, gyda'r safle yn helpu i bweru Ysbyty Treforys.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi cyflawni cynlluniau cynaliadwyedd – a'r rhai cyntaf i Gymru – gan gynnwys Cystadleuaeth Tîm Gwyrdd yn ddiweddar, lle bu prosiectau dan arweiniad staff a oedd yn lleihau allyriadau ac, mewn llawer o achosion, yn gwella ansawdd neu'n arbed arian yn eu hadrannau.

Mae ymgyrch lwyddiannus ar gyfer ailgylchu anadlwyr hefyd wedi sicrhau canlyniadau hynod addawol, a disgwylir ei chyflwyno ledled y wlad.

Mae'r rolau newydd yn gam arwyddocaol arall yng ngweledigaeth y bwrdd iechyd o leihau ei ôl troed carbon a chynorthwyo staff i arwain y newid hwn.

<u>Clinig yn darparu cymorth lles i ddarpar famau</u>
Nod cyflwyno'r clinig llesiant yn Ysbyty Singleton, Abertawe, yw helpu i leihau unrhyw bryder neu drallod y gall darpar famau fod yn ei brofi yn ystod eu beichiogrwydd.

Mae'r gwasanaeth newydd yn cynnig chwe sesiwn i fenywod lle gallant siarad am unrhyw faterion neu bryderon sydd ganddynt cyn dysgu am wahanol dechnegau ymdopi.

Cynhelir y sesiynau gan fydwraig arbenigol iechyd meddwl amenedigol gyntaf Bae Abertawe, Ann-Marie Thomas. Dywedodd hi: "Rydyn ni i gyd yn meithrin strategaethau ymdopi ar gyfer ein hiechyd meddwl trwy gydol ein bywyd. Mae beichiogrwydd yn gyfnod lle efallai nad yw'r strategaethau ymdopi hynny'n ddigon bellach oherwydd bod ein bywydau cymdeithasol a'n perthnasoedd yn cael eu heffeithio. Yn aml iawn gall pobl gael eu gorlethu a gall emosiynau ddechrau mynd yn fwy dwys a gall pryder a hwyliau isel ddechrau bod yn broblem. Gwnaethon ni gyflwyno'r clinig llesiant, sy'n darparu mannau gwrando i'r menywod hyn." Y gobaith yw y bydd lefelau gofid a phryder pob merch wedi gostwng yn sylweddol erbyn diwedd y chwe sesiwn".

<u>Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru / Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys</u>

<u>Aduniad goroeswraig ataliad y galon o Bort Talbot a'i hachubwyr bywyd 'anhygoel'</u>
Mae cynorthwyydd gorsaf betrol a gafodd ataliad y galon yn y gwaith wedi diolch i'w gŵr, ei chydweithwyr a'r criw ambiwlans a achubodd ei bywyd. Roedd Jayne Partridge, 55, newydd ddechrau ei shifft yng ngorsaf betrol Tesco ym Mhort Talbot pan ddechreuodd deimlo'n sâl. O fewn munudau, roedd y fam i ddau o blant yn dioddef i'r eithaf o ataliad y galon.

Gwnaeth cydweithwyr Jayne ddeialu 999, rhoi cywasgiadau i'r frest, a chyflwyno cyfres o siociau gan ddefnyddio diffibriliwr. Sefydlogodd criw Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Jayne ac aethpwyd â hi i Ysbyty Treforys, lle treuliodd bedair wythnos yn gwella, gyda 12 diwrnod o hynny mewn uned gofal dwys.

Y parafeddyg Chris Collins oedd yr adnodd ambiwlans cyntaf i gyrraedd y lleoliad. "Mewn ataliad y galon, mae pob eiliad yn cyfrif," meddai. "Bydd y gwasanaeth ambiwlans bob amser yn anfon ambiwlans cyn gynted â phosibl gyda goleuadau a seirenau, ond os oes rhywun yno a all ddechrau adfywio cardio-pwlmonaidd a chychwyn diffibrilio yn gynnar, gallai olygu'r gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth. Y tro hwn, roedd gŵr a chydweithwyr Jayne wedi dechrau'r 'gadwyn oroesi' drwy roi adfywio cardio-pwlmonaidd effeithiol iawn i Jayne. Heb hynny, efallai na fyddai'r canlyniad mor gadarnhaol."

Ym mis Awst 2023, llwyddodd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ddadebru bron i chwarter (23.8 y cant) o'r cleifion a gafodd ataliad y galon ac a roddwyd triniaeth iddynt y tu allan i'r ysbyty – y nifer uchaf erioed ers dechrau cadw cofnodion, gan roi'r siawns orau o oroesi i'r cleifion hyn.

Technegydd meddygol brys yn ennill gwobr nodedig
Mae un o weithwyr Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi ennill gwobr glodwiw.

Gwobrwywyd Darren Anthony, technegydd meddygol brys yng Nghaernarfon, â Gwobr Prentisiaeth Uwch y Flwyddyn 2023 gan Academi Sgiliau Cymru.

Ymunodd Darren â'r ymddiriedolaeth ym mis Medi 2022 fel technegydd meddygol brys dan hyfforddiant, gan ddilyn cymhwyster Ymarferydd Ambiwlans Lefel 4 Prentisiaeth Uwch.

Dywedodd Claire Hurford, Cydlynydd Prentisiaethau'r ymddiriedolaeth, a enwebodd Darren ar gyfer y wobr: "Mae Darren yn frwd dros ddatblygiad personol ac yn blaenoriaethu anghenion ei gleifion yn gyson, ac mae bob amser yn barod i roi help llaw i eraill. Roedd yn bleser pur enwebu Darren ar gyfer y wobr hon, ac mae'n wych ei weld yn ennill. Mae rhaglen brentisiaeth Darren bron wedi'i chwblhau, ac ar ôl cymhwyso mae'n dyheu am barhau i ddysgu a gwneud cais am raglen gradd barafeddygol."

Cynhaliwyd y seremoni ar 7 Tachwedd yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot, lle dathlwyd cyraeddiadau dysgwyr, darparwyr a mentrau rhagorol mewn dysgu seiliedig ar waith ar draws partneriaethau Academi Sgiliau Cymru yn ystod 2022/23.

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Treial arloesol yn Felindre yn y newyddion
Yn ystod mis Hydref 2023, bu BBC Cymru yn ffilmio yn yr Uned Ymchwil Treialon Clinigol yng Nghanolfan Ganser Felindre, ar ôl recriwtio'r claf cyntaf i dreial ar gyfer cleifion glioblastoma. Bwriad y treial yw ymchwilio i weld a all cyfuno cannabinoidau a chemotherapi helpu i ymestyn bywydau cleifion sy'n cael diagnosis o glioblastoma rheolaidd. Bydd yn recriwtio mwy na 230 o gleifion glioblastoma ar draws 14 o ysbytai'r GIG ledled y DU.

Llysiau ar gyfer Felindre yn derbyn Gwobr Gwirfoddolwr ac ymweliad annisgwyl gan Uchel Siryf Morgannwg Ganol
Derbyniodd Llysgenhadon Ifanc Felindre, Seren a Morgan, y Wobr Gwirfoddolwr gan yr Athro Jean White CBE, Uchel Siryf Morgannwg Ganol, a'r Athro Donna Mead OBE, cadeirydd yr ymddiriedolaeth.

Cafodd y brawd a chwaer eu cydnabod am eu menter ‘Llysiau ar gyfer Felindre’, lle buont yn datblygu rhandir ger eu cartref, yn tyfu ac yn gwerthu llysiau i’w cymuned leol, sydd yn ei dro wedi codi dros £2,000 i Elusen Felindre hyd yma.

Claf yn enwebu nyrs canser arbenigol Felindre ar gyfer gwobr genedlaethol
Mae un o nyrsys canser arbenigol Ymddiriedolaeth Felindre wedi cael ei henwebu gan un o’i chleifion ar gyfer y Wobr Arwr Nyrsio, a drefnir gan yr elusen Target Ovarian Cancer. Mae’r wobr hon yn dathlu’r gwaith a’r ymroddiad i ddarparu cymorth eithriadol nid yn unig i’r rhai sy’n wynebu diagnosis o ganser yr ofari, ond i’w hanwyliaid hefyd.

Dywedodd y claf: “Roedd hi bob amser yn gwneud i mi deimlo’n glaf gwerthfawr, gan ateb fy nghwestiynau niferus yn wybodus ac yn hyderus iawn. Roeddwn bob amser yn falch o glywed ei llais pan fyddwn yn codi’r ffôn ac yn gallu uniaethu â hi yn well nag unrhyw feddyg. Rwy’n gwerthfawrogi ei ffordd onest a thosturiol ac ni allaf ddiolch digon iddi.”

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymchwil Ymddygiadol y DU (BR-UK)
Mae’n bleser gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi ei rôl yn sefydlu Ymchwil Ymddygiadol y DU (BR-UK), menter drawsnewidiol a fydd yn helpu i fynd i’r afael â heriau cymdeithasol ac economaidd yn y DU.

Mae’r ganolfan yn cael ei sefydlu yn dilyn chwistrelliad cyllid o £13 miliwn gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), sy’n nodi cynnydd aruthrol ym maes ymchwil ymddygiadol yn y Deyrnas Unedig. Gwahoddwyd yr Uned Gwyddor Ymddygiad yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymuno â’r consortiwm a helpu i ddatblygu’r cais llwyddiannus am gyllid ochr yn ochr â chydweithwyr o Brifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

Mae deall ymddygiad dynol a sut mae’n llywio sefydliadau, cymunedau a chymdeithasau yn hanfodol i fynd i’r afael â heriau byd-eang heddiw ac yn y dyfodol.

Mae’r consortiwm hefyd yn cynnwys ymgysylltu gweithredol â chyrff llywodraeth o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ynghyd ag asiantaethau a sefydliadau sy’n croestorri â meysydd fel trafnidiaeth, diogelwch bwyd, diogelu iechyd, cyfathrebu, entrepreneuriaeth, a mwy.

Profiadau iechyd ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ennill Gwobr Effaith Ymchwil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Yn ddiweddar, enillodd tîm HEAR2 (profiadau iechyd ceiswyr lloches a ffoaduriaid) Wobr Effaith Ymchwil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ei chynhadledd flynyddol a daeth yn ail ar gyfer y Wobr Ymgysylltu â Chleifion a’r Cyhoedd hefyd am ei ddefnydd o ymchwilwyr cymheiriaid â phrofiad bywyd.

Adeiladodd yr astudiaeth ar waith HEAR1, lle’r oedd cleifion yn rhannu eu hanawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau’r GIG, drwy ymchwilio i anghenion dehongli iaith a gwasanaethau mewn gofal iechyd ar lefel Cymru a’r DU.

Mae argymhellion sy’n deillio o’r ymchwil yn cael eu datblygu gan weithgor sy’n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Cyfieithu Cymru.

Gofal Iechyd Digidol Cymru

Lansio gwasanaeth presgripsiynau electronig cyntaf Cymru
Cleifion yn y Rhyl yw'r rhai cyntaf yng Nghymru i elwa o wasanaeth presgripsiynau electronig newydd sy'n caniatáu i feddygon teulu anfon presgripsiynau'n ddiogel ar-lein i ddewis y claf o fferyllfa gymunedol, heb fod angen ffurflen bapur.

Mae'r gwasanaeth newydd yn gwneud rhagnodi a dosbarthu meddyginiaethau i gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy effeithlon.

Mae lansio presgripsiynau electronig yng Nghymru yn ganlyniad i 20 mis o waith gan y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (DMTP), sydd wedi troi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddigideiddio presgripsiynau yn realiti.

Mae'r gwasanaeth yn dod â manteision i gleifion, meddygfeydd, fferyllfeydd a'r amgylchedd, gan arbed hyd at 40 miliwn o ffurflenni papur rhag cael eu hargraffu bob blwyddyn.

Mae'r gwasanaeth newydd mewn cyfnod profi byw ar hyn o bryd, cyn ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru mor gyflym a diogel â phosibl o fis Ionawr 2024.

Nodyn Ymgynghori Diabetes yn cyrraedd carreg filltir newydd mewn pryd ar gyfer Diwrnod Ymwybyddiaeth Diabetes
Y mis hwn, bydd y Nodyn Ymgynghori Diabetes (DCN) yn cyrraedd record newydd o 200,000 o nodiadau wedi'u creu ers ei lansio yn 2019.

Mae'r Nodyn Ymgynghori Diabetes yn gofnod electronig sydd wedi'i gynllunio i symleiddio gwybodaeth gofal diabetes ar un llwyfan. Gan symleiddio'r cyfathrebu rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, mae'r Nodyn Ymgynghori Diabetes yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol weithio'n gydlynol i sicrhau'r gofal gorau i gleifion.

Dywedodd Andy Bray, Nyrs Arbenigol Diabetes ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: "Mae'r cysyniad yn hynod o syml. O fewngofnod unigol, mae defnyddiwr Porth Clinigol Cymru ac, yn fwy penodol, y Nodyn Ymgynghori Diabetes (DCN) yn gallu cael mynediad at nodiadau ymgynghori diabetes unrhyw glaf â diabetes sydd wedi cael ei weld gan unrhyw aelod arall o unrhyw dîm diabetes ledled byrddau iechyd Cymru."

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Addysg canser gynnar am ddim i glinigwyr
Mae'n hysbys po gyntaf y canfyddir canser, y gorau yw'r siawns o ganlyniad cadarnhaol i gleifion.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar y cyd â Rhwydwaith Canser Cymru a Sefydliad GIG Christie wedi lansio GatewayC ar gyfer clinigwyr gofal sylfaenol mewn practisau cyffredinol yng Nghymru.

Mae GatewayC yn rhaglen hyfforddi am ddim mewn diagnosis canser cynnar. Mae'n cynnwys sut i adnabod y fflagiau coch hynny sy'n aml yn anodd i'w gweld ond sy'n dynodi camau cynnar canser ac yn cynorthwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau clinigol, gan wella gofal a chymorth y rhai sy'n cael diagnosis yn y pen draw.

Dywedodd yr Athro Pushpinder Mangat, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Addysg a Gwella Iechyd Cymru: "Mae hwn yn adnodd ar-lein ardderchog wedi'i werthuso y bwriedir ei ddefnyddio am ddim gan gydweithwyr clinigol sy'n gweithio ar draws gofal sylfaenol a chymunedol yng Nghymru. Byddwn yn annog yr holl ymarferwyr gofal sylfaenol a

chymunedol i gael mynediad i GatewayC gyda'r nod o gynorthwyo diagnosis canser cynharach, gan arwain at well gofal amserol i gleifion."

Lansio adnoddau NIPEC
Mae archwiliad fel rhan o'r Rhaglen Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig yng Nghymru (NIPEC) yn cael ei gynnig i bob babi yng Nghymru. Prif amcanion yr archwiliad yw:
Nodi ac atgyfeirio pob plentyn sy'n cael ei eni ag annormaleddau cynhenid yn y llygaid, y galon, y cluniau a'r ceilliau (mewn gwrywod), lle mae modd eu canfod, o fewn 72 awr i'r enedigaeth.

Mae'n bleser gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru gyhoeddi lansiad adnoddau datblygiad proffesiynol parhaus y Rhaglen Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig yng Nghymru (NIPEC), gan gynnwys modiwl e-ddysgu i gynorthwyo ymarferwyr NIPEC o bob rhan o Gymru. Bydd y rhain yn cyd-fynd â chanllawiau a safonau newydd Llywodraeth Cymru ac yn ategu dull Cymru gyfan o ymdrin ag archwiliad NIPEC a datblygiad proffesiynol parhaus, a fydd o fudd i'n poblogaeth ifanc iawn yng Nghymru.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Recriwtio rhyngwladol Cymru gyfan – peilot meddygol Tachwedd 2023
Gan adeiladu ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng llywodraethau Cymru a Kerala a gwaith blaenorol i recriwtio nyrsys, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi arwain y gwaith o ddarparu dull unwaith i Gymru ar gyfer recriwtio meddygol rhyngwladol.

Yn dilyn ymarfer cwmpasu ym mis Mai 2023 gan Dr Ruth Alcolado (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) a Dr Inder Singh (BIPAB) gyda chymorth tîm Gweithlu Digidol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, cafwyd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gynnal ffair recriwtio beilot ym mis Tachwedd 2023.

Cwblhaodd Anna Davies yn nhîm y Gweithlu Digidol y gwaith sylweddol a oedd ei angen i ganiatáu i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gael ei chydnabod fel sefydliad noddi'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer meddygon o bob gradd ac arbenigedd sy'n cael eu recriwtio drwy ein prosesau Cymru gyfan y cytunwyd arnynt i weithio mewn unrhyw sefydliad yn GIG Cymru.

Yn gynharach y mis hwn, cynhaliodd dirprwyaeth, gan gynnwys ymgynghorwyr yn y wlad (New Delhi a Kochi), dan arweiniad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, gyfweliadau personol ac ar-lein ar gyfer tua 50 o ymgeiswyr ar y rhestr fer. Ar ddiwedd y cyfweliadau, roedd modd penodi 17 o ymgeiswyr cymrodyr iau.

Yn dilyn y peilot recriwtio hwn, bydd y tîm yn cynnal ymarfer i nodi'r gwerth ychwanegol i'r system yn ogystal â'r arbedion a wireddwyd drwy recriwtio staff sy'n raddedigion meddygol rhyngwladol yn hytrach na dibynnu ar locymau cost uchel tymor byr neu recriwtio costus trwy asiantaethau masnachol.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services